



Cyngor Sir Powys  
Neuadd y Sir  
Llandrindod  
Powys  
LD1 5LG

Dyddiedig: 16 Rhagfyr 2021

Annwyl Riant / Gofalwr,

Wrth i ni nesáu at ddiwedd y tymor a diwedd 2021, hoffem ddiolch i chi am flwyddyn hynod o anodd a heriol arall.

Mae'r pandemig yn parhau i roi straen ychwanegol ar bawb, yn enwedig rhieni a gofalwyr a'n hysgolion.

Rydym yn ymwybodol bod nifer o ysgolion yng Nghymru naill ai'n symud i ddysgu cyfunol neu'n cau'n gynnar. Fodd bynnag, y bwriad yw y bydd ysgolion ym Mhowys yn dal i orffen ar ddiwrnod olaf y tymor sef dydd Mercher yr 22ain o Ragfyr.

Bydd tymor y gwanwyn yma cyn bo hir ac mae'n briodol ein bod yn rhoi gwybod i chi beth yw'r cynlluniau ar gyfer pan fydd dysgwyr yn dychwelyd i'w lleoliadau addysg ar ôl gwyliau'r Nadolig.

Heddiw, mae Jeremy Miles AS, y Gweinidog Addysg a'r Gymraeg, wedi cyhoeddi ei fod yn darparu dau ddiwrnod cynllunio i bob ysgol ar ddechrau tymor newydd y gwanwyn. Bydd hyn yn rhoi amser i ysgolion asesu capasiti staffio ac i roi'r mesurau angenrheidiol ar waith i gefnogi dysgwyr pan fyddant yn dychwelyd.

Yn dilyn trafodaethau gyda phenaethiaid ac undebau athrawon, cytunwyd y bydd dydd Mercher y 5ed a dydd Iau y 6ed o Ionawr 2021 yn ddiwrnodau paratoi ar gyfer ysgolion ym Mhowys.

Bydd y diwrnodau hyn yn caniatáu i ysgolion adolygu eu hasesiadau risg, eu prosesau a'u systemau i sicrhau y bydd yr ysgol yn ddiogel i ddysgwyr dychwelyd.

Cytunwyd hefyd y bydd pob ysgol yn darparu dysgu cyfunol i ddysgwyr ddydd Gwener y 7fed o Ionawr 2021 ond y bydd ar agor i blant sy'n agored i niwed a phlant gweithwyr allweddol/hanfodol.

Ni ddylai'r lleoliadau blynyddoedd cynnar hynny sy'n darparu gofal plant 30 awr yr wythnos gael eu heffeithio ond byddwn yn annog rhieni a gofalwyr i gael gair gyda'u lleoliad blynyddoedd cynnar i weld a ydynt ar agor.

Byw, dysgu, gweithio a chwarae ym Mhowys - Live, learn, work and play in Powys

[www.powys.gov.uk](http://www.powys.gov.uk)

Cysylltwch â ni yn Gymraeg neu yn Saesneg. Ni fydd cysylltu yn Gymraeg yn arwain at oedi.  
Contact us in Welsh or in English. Contacting us in Welsh won't lead to a delay.





Ein bwriad yw y bydd pob dysgwr yn dychwelyd i'w lleoliadau addysg ddydd Llun y 10fed o Ionawr 2022. Fodd bynnag, bydd hyn yn dibynnu ar lefelau'r Coronafeirws yn y Flwyddyn Newydd, felly mae'n bwysig bod teuluoedd yn gwneud popeth o fewn eu gallu i gadw eu hunain ac eraill yn ddiogel.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn disgwyl y dylai pob aelod o staff mewn ysgolion a dysgwyr oed uwchradd ac uwch brofi deirgwaith yr wythnos gan ddefnyddio profion llif ochrol (LFTs). Dylid cynnal profion ar ddydd Llun, dydd Mercher a dydd Gwener yn yr wythnos cyn dychwelyd i'r ysgol ac yna parhau i brofi'n rheolaidd deirgwaith yr wythnos pan fydd dysgwyr yn dychwelyd i'w hysgol uwchradd.

Rhaid i ni bwysleisio ein bod yn dal i fod yng nghanol y pandemig hwn. Dylai rhieni barhau i fod ar eu gwylidwriaeth am y coronafeirws a chadw plant sy'n sâl i ffwrdd o'r ysgol a lleoliadau blynyddoedd cynnar hyd yn oed os yw'r symptomau'n ymddangos yn ysgafn iawn.

Bydd angen i ddysgwyr a'n staff i fod mor ddiogel â phosibl pan fyddant yn dychwelyd i'r ysgol ym mis Ionawr a byddwn yn annog pob teulu i ddilyn rheolau diweddaraf y Coronafeirws fel ei bod yn ddiogel i bawb pan fydd dysgwyr yn dychwelyd i'w hysgol ym mis Ionawr.

Yn olaf, hoffem ddymuno gwyliau hapus a diogel i bawb dros y Nadolig ac edrychwn ymlaen at weld plant a phobl ifanc nôl mewn ysgolion a lleoliadau blynyddoedd cynnar ym mis Ionawr.

Yn gywir,

**Cynghorydd Phyl Davies**  
**Aelod Portffolio ar faterion Addysg ac Eiddo**

**Lynette Lovell**  
**Cyfarwyddwr Addysg**

Byw, dysgu, gweithio a chwarae ym Mhowys - Live, learn, work and play in Powys

[www.powys.gov.uk](http://www.powys.gov.uk)

Cysylltwch â ni yn Gymraeg neu yn Saesneg. Ni fydd cysylltu yn Gymraeg yn arwain at oedi.  
Contact us in Welsh or in English. Contacting us in Welsh won't lead to a delay.

